# Diweddariad gweithgaredd hanner blwyddyn H2 2023/24

Banc Datblygu Cymru

# Diweddariad gweithgaredd hanner blwyddyn H2 2023/24

**Rydym yn fanc datblygu sy'n rhoi potensial Cymru wrth wraidd ein penderfyniadau. Ein pwrpas yw dod ag uchelgeisiau yn fyw a thanio posibiliadau i bobl, busnesau a chymunedau yng Nghymru. Mae ein cynllun gweithredol blynyddol yn canolbwyntio ar gyflawni ein tri amcan strategol a amlinellir yn ein Cynllun Corfforaethol 2022/27 :**

**- cyflawni cyllid dyled ac ecwiti gydag effaith gymdeithasol**

**- hybu a hyrwyddo dyfodol gwyrdd yng Nghymru**

**- rhagoriaeth cyflawni, cwsmer-yn-gyntaf, cynaliadwyedd ariannol**


**Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gweithgarwch yn ail hanner 2023/24.**

## Trosolwg

Nododd yr adroddiad diweddar a gomisiynwyd ar y cyd gan Fanc Busnes Prydain a Dirnad Economi Cymru fod 58% o fusnesau yn disgwyl perfformiad sefydlog parhaus yn y flwyddyn i ddod gyda dim ond 22% yn rhagweld twf. Profodd 1 o bob 5 BBaCh yng Nghymru rwystrau wrth geisio cael mynediad at gyllid ac roedd lefelau hyder wrth gael cyllid yn uwch ymhlith busnesau mwy. Mae'n holl bwysig felly, yn enwedig gyda Chymru â'r gyfran isaf o fusnesau sy'n chwilio am gyllid ychwanegol ar gyfer twf o blith yr holl wledydd datblygedig, fod busnesau bach yn ymwybodol o argaeledd a manteision cyllid er mwyn gwireddu eu llawn botensial.

Mae ein gallu i wasanaethu ystod lawn o anghenion y farchnad yng Nghymru wedi'i ddangos yn glir yn ail hanner 2023/24 gyda buddsoddiadau unigol o £10m+ i dros £4.2m wedi'i fuddsoddi mewn cyllid micro hyd at £50k. Mae ein rhwydwaith o arbenigwyr buddsoddi rhanbarthol yn parhau i weithio gyda busnesau Cymreig hyfyw sy'n dod o hyd i argaeledd cyfyngedig cyllid twf gan fenthycwyr prif ffrwd. Mae'r allbwn canlyniadol wedi gweld a swm uchof erioed o £125.2m wedi' fuddsoddi'n uniongyrchol gan y Banc Datblygu yn 2023/24.

# Diweddariad gweithgaredd hanner blwyddyn H2 2023/24
## Prif dargedau





### Buddsoddiad uniongyrchol

**Beth yw hyn?**

Buddsoddiad o'n cronfeydd busnes ac eiddo. Dyma ein prif darged cyflawni bob blwyddyn a dyma swm proffil cyflawni'r flwyddyn ar draws pob un o'n cronfeydd.

**Sylwebaeth**

Arweiniodd gweithgarwch buddsoddi 2023/24 at gyflawni £125m ar draws ein buddsoddiadau dyled, ecwiti ac eiddo, sef 112% o'r targed. Roedd H2 yn gymharol fwy na'r un cyfnod yn 2022/23 oherwydd bod gweddill cyllid yr UE o Gronfa Busnes Cymru wedi'i ddarparu a nifer of fuddsoddiau mwy na'r cyfartalled.




### Swyddi a gefnogir

**Beth yw hyn?**

Cyfanswm y swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd o ganlyniad i'n gweithgarwch buddsoddi.

**Sylwebaeth**

Mae'r targedau swyddi a gefnogir yn cael eu gosod mewn perthynas â'r cymysgedd ariannu mewn blwyddyn benodol h.y. mae buddsoddiad o rai cronfeydd yn arwain at fwy o effaith ar swyddi. Ni wneir penderfyniadau buddsoddi ar sail niferoedd swyddi yn unig ond yn hytrach ar rinweddau'r cyfle llawn, gan gynnwys cynhyrchiant. Roedd allbynnau swyddi yn gyson â darpariaeth H2 yn 2022/23 a chyflawnwyd 118 % o darged y flwyddyn lawn.

**1:0.93**
5 mlynedd perfformiad hyd yma

**1:1**
Targed rholio

### Cyd-fuddsoddiad

**Beth yw hyn?**


Mae targedau cyd-fuddsoddi yn cael eu gosod yn erbyn cyflawni ein cronfeydd busnes (nid ydynt yn cynnwys gweithgarwch buddsoddi mewn datblygu eiddo). Pwrpas y targed hwn yw cynnal llif cynyddol o gyfalaf preifat yng Nghymru.

**Sylwebaeth**

Mae cyd-fuddsoddiad yn parhau i fod yn gyfnewidiol yn y bwlch yn y farchnad lle mae'r Banc Datblygu yn gweithredu. Mae cwtogi parhaus, proffiliau risg uwch a ffafriaeth ar gyfer buddsoddiau mwy gan fenthycwyr stryd fawr i gyd wedi effeithio ar gyflawniad cyd-fuddsoddi yn 2023/24. Caiff hyn ei fesur ar sail dreigl dros y cyfnod o bum mlynedd.

# Diweddariad gweithgaredd hanner blwyddyn H2 2023/24

## Prif dargedau





### Nifer y busnes a gefnogir

**Beth yw hyn?**

Y mesur hwn yw nifer y busnesau unigryw a gefnogir o fewn blwyddyn ariannol.

**Sylwebaeth**

Mae nifer y busnesau a gefnogwyd yn berfformio'n dda yn erbyn y targed, gan gyflawni 102% o'r targed yn 2023/24. Mae'r ffigur a adroddwyd ar gyfer nifer y buddsoddiadau a wneir yn nodweddiadol tua 15% yn uwch o ganlyniad i fuddsoddiad dilynol.





### Cefnogir adeiladu cartrefi

**Beth yw hyn?**

Mae hyn yn nodi nifer y cartrefi newydd a ddatblygwyd drwy ein benthyciadau cronfa eiddo.

**Sylwebaeth**

Mae amodau economaidd parhaus yn parhau i gael effaith uniongyrchol ar nifer y cartrefi sy'n cael eu hadeiladu fesul safle gyda'r cyfanswm hyfyw yn gostwng yn nodedig o ganlyniad i gynnydd mewn costau chwyddiant.





### Sgôr Hyrwyddwr Net a Sgôr Hyrwyddwr Net Gweithwyr

**Beth yw hyn?**

Sgôr Hyrwyddwr Net yw'r mesur a ddefnyddiwn i olrhain profiad cwsmeriaid yn seiliedig ar eu tebygolrwydd o argymell cynnyrch neu wasanaeth. Mae sgôr Hyrwyddwr Net Gweithwyr yn cyflawni rôl debyg, gan fesur boddhad ac ymgysylltiad gweithwyr.

**Sylwebaeth**

Mae'r Banc Datblygu yn parhau i gynnal sgorau SHN ac SHNG 'Rhagorol' a 'Gwych'.



# Diweddariad gweithgaredd hanner blwyddyn H2 2023/24
## Uchafbwyntiau gweithgaredd

| Amcan | H2 23/24 uchafbwyntiau gweithgaredd |
|---|---|
| **Craidd: Darparu cyllid dyled ac ecwiti gydag effaith gymdeithasol**<br>**Mae'r amcan hwn yn cadw ffocws clir ar ein gweithgaredd craidd o sicrhau cyflenwad parhaus o gyllid dyled ac ecwiti i fusnesau Cymru ar gyfer twf economaidd, gan greu effaith gymdeithasol gadarnhaol. Rydym yn canolbwyntio ein dull gweithredu cyflawni drwy olrhain canlyniadau effaith gan gynnwys demograffeg, arloesedd, ansawdd swyddi a buddsoddiad yn seiliedig ar leoliad.** | **Buddsoddi i gael effaith**<br>Dosbarthwyd y £74m a ddarparwyd yn ail hanner 2023/24 21% yn y gogledd, 51% yn y canolbarth a'r gorllewin a 28% yn ne-ddwyrain Cymru, gan alinio i'r gwasgariad busnes ar draws y rhanbarth. O'r buddsoddiad hwn, dywedodd 40% o fusnesau a gafodd fuddsoddiad fod 50% neu fwy o'u cyfarwyddwyr / cyfranddeiliaid / perchnogion yn ferched a bod 92% o'r buddsoddiad wedi'i wneud y tu allan i Gaerdydd. Buddsoddwyd y £12m ychwanegol o'r CBC yn llawn hefyd yn H2 gan sicrhau cyllid yn y dyfodol i'w ail-fuddsoddi yng Nghymru.<br><br>**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**<br>Yn ystod 23-24 cynhaliodd y Banc Datblygu asesiad effaith cydraddoldeb corfforaethol cynhwysfawr a oedd yn ceisio adolygu anghenion a phrofiadau'r rhai sy'n cyrchu cyllid a chymorth ac anghenion y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r adroddiad allbwn bellach wedi'i drawsnewid i gynllun gweithredu manwl i'w gyflwyno yn 2024/25 a 2025/26. |
| **Yn dod i'r amlwg: Hyrwyddo a hybu dyfodol gwyrdd**<br>**Yn unol â'n Haddewid Twf Gwyrdd, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein hymagwedd tuag at gynaliadwyedd amgylcheddol dros gyfnod ein cynllun 5 mlynedd, gan gefnogi uchelgeisiau Sero Net LlC. Rydym yn gwneud hyn drwy ddarparu atebion ariannu targedol, ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid a dylanwadu ar bontio cymesurol at ddyfodol gwyrdd ar gyfer y cwsmeriaid rydym yn eu cefnogi.** | **Atebion ariannu wedi'u targedu**<br>Mae ein cynlluniau pwrpasol i annog datgarboneiddio yn parhau i gael effaith ac mae'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd bellach yn cofnodi dros 25,000 tCO2e o'r £5.4m a fuddsoddwyd hyd yma, a'r cymhelliant Cartrefi Gwyrdd yn cefnogi 14 o fuddsoddiadau datblygwyr BBaCh yn 2024/25 sy'n defnyddio dulliau adeiladu carbon isel yn eu datblygiadau. Mae gwaith pellach yn parhau i ddatblygu cynlluniau ychwanegol gan gynnwys ôl-osod tai a chymorth ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr.<br><br>**Strategaeth Cynaliadwyedd Corfforaethol**<br>Yn ystod H2 cwblhawyd Strategaeth Cynaliadwyedd Corfforaethol Banc Datblygu Cymru. Mae'r strategaeth hon, sydd i'w lansio yn hanner cyntaf 2024/25, yn amlinellu ein dull gweithredu tuag at gynaliadwyedd gan sicrhau ei fod yn ganolog i'n hamcanion corfforaethol gan gynnwys sut rydym yn gweithio gyda'n cwsmeriaid portffolio, sut rydym yn cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a sut rydym fel sefydliad yn bwriadu bodloni'r un safonau yr ydym yn eu heirioli ar gyfer ein cwsmeriaid ni. |
| Gweithredol: Cyflawni rhagoriaeth, cwsmer-yn-gyntaf, cynaliadwyedd ariannol<br>**Fel corff cyflawni cyfrifol sy'n buddsoddi arian cyhoeddus, rhaid i ni sicrhau gwerth am arian. Er mwyn cyflawni ein pwrpas a'n cenhadaeth, mae angen i ni sicrhau bod ein darpariaeth weithredol a'n cynhyrchion mor effeithiol â phosibl. Gwnawn hyn drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddeall anghenion esblygol busnesau, perchnogion tai, a'r ecosystem ehangach.** | **Trawsnewid digidol**<br>Mae'r cynnydd yn parhau gyda'n rhaglen o drawsnewid digidol i sicrhau effeithlonrwydd prosesau clir ar gyfer ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys rhoi system gweinyddu benthyciadau newydd ar waith yn derfynol ar gyfer gwella galluoedd adrodd ariannol a chamau olaf porth cwsmeriaid newydd i fusnesau gael mynediad uniongyrchol at eu gwybodaeth cyfrif – sydd i'w lansio yn 2024/25.<br><br>**Cronfa Fuddsoddi i Gymru**<br>Yn H2, dyfarnwyd y contract i FW Capital, sef is-gwmni a awdurdodir gan yr AYA o fewn Grŵp y Banc Datblygu, i gyflawni'r gronfa ddyled o £30m ar gyfer Cronfa Fuddsoddi Banc Busnes Prydain i Gymru sydd newydd ei sefydlu. Bydd y cyllid hwn yn gweithio ochr wrth ochr â'n gallu ariannu presennol i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei gyflawni'n effeithiol ar draws yr amrediad o anghenion buddsoddi ar gyfer busnesau yng Nghymru. |

# Diweddariad gweithgaredd hanner blwyddyn H2 2023/24
## Prif dargedau pum mlynedd

Mae manlyion ar gynnydd yn erbyn prif dargedau cyflawni pum mlynedd 2022-27 yn y tabl isod.


| | Targed pum mlynedd | Targed (Ebr 24) | Gwirioneddol | +/- % |
|---|---|---|---|---|
| **Buddsoddiad uniongyrchol** | £650m | £242m | £249m | 103% |
| **Cyd-fuddsoddiad** | 1:1 | 1:1 | 1:0.93 | 93% |
| **Swyddi a gefnogir** | 20,000+ | 8,000 | 9,131 | 115% |
| **Busnesau a gefnogir** | 2,200+ | 880 | 855 | 97% |
| **Cefnogir adeiladu tai** | 1,900 | 760 | 478 | 63% |
| **SHN Gweithwyr** | 60 | 60 | 65 | 108% |
| **SHN cwsmer** | 60 | 60 | 90 | 140% |


**Addewid Twf Gwyrdd**
Mae'r Banc Datblygu yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar wyrddni, a chefnogir hynny gyda phenodiad Rheolwr Cynaliadwyedd. Ers 2022 mae'r sefydliad wedi dod yn aelod o'r Bartneriaeth ar gyfer Cyllid Cyfrifyddu Carbon ac Egwyddorion ar gyfer Buddsoddiad Cyfrifol a gefnogir gan y Cenhedloedd Unedig sy'n cynnwys adrodd ar effaith amgylcheddol. Lansiodd y Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd a'r Cymhelliant Cartrefi Gwyrdd ac mae'n parhau i ganolbwyntio'n fewnol ar ei strategaeth gynaliadwyedd sydd i'w chyhoeddi yn gynnar yn 2024/25.

# Diweddariad gweithgaredd hanner blwyddyn H2 2023/24
## Ciplun - Microfusnesau a micro gyllid

### Micro fusnesau

Mae cymorth i ficro fusnesau [1]yn parhau i fod yn flaenllaw fel prif fuddiolwr buddsoddiad y Banc Datblygu yn flynyddol. Yn 2023/24, buddsoddwyd £46m (53% o fuddsoddiad di-eiddo) mewn busnesau Cymreig gyda 0-9 o weithwyr. Yn 2023/24, ymhlith y tri prif sector o ficro fusnesau a gefnogwyd oedd Gwasanaethau Llety a Bwyd (18%), Masnach Cyfanwerthu a Manwerthu (17%) a Gweithgynhyrchu (15%), gyda gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (9%) yn bedwerydd.








### Micro gyllid

Yn 2013 lansiwyd y Gronfa Ficro-Gyllid gyntaf gan y sefydliad a ragflaenodd y Banc Datblygu, Cyllid Cymru. Nod y gronfa hon o £6m oedd sicrhau bod busnesau Cymru yn gallu cael mynediad at gyllid o dan £50k, gofod a nodwyd gan grŵp Tasg a Gorffen Micro Gyllid Llywodraeth Cymru fel un nad oedd yn cael ei wasanaethu'n ddigonol gan y farchnad oherwydd y gwerth cyflawni isel a chost uchel gofynnol.

Yn dilyn llwyddiant cynnar y Gronfa hon, ymrwymwyd £12m pellach yn 2015. Roedd hyn yn cynnwys cyllid penodedig parhaus ar gyfer Mentrau Cymdeithasol y cafodd partneriaid cyflawni arbenigol eu caffael ar eu cyfer yng Nghyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. At hynny, yn 2019, gyda'r galw am gyllid micro yn cynyddu, sefydlwyd Cronfa newydd, sef Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru gwerth £30m, a thrwy hynny cynyddwyd y cyllid penodedig gwreiddiol o £6m i dros £48m dros gyfnod y ddwy gronfa.

Yn 2023/24, roedd 62% o nifer y buddsoddiadau a gyflawnwyd yn gyllid micro, sef tua 7% o gyfanswm y buddsoddiadau. Gyda lefelau ariannu'n ddigyfyngiad, mae lefelau naturiol y galw am gyflawni a welwn yn flynyddol tua £7.5m-£8.5m.




Mae enghreifftiau o rai o'r busnesau Cymreig sydd wedi elwa o gyllid micro drwy gyfrwng y Banc Datblygu dros y 12 mis diwethaf i'w gweld ar y dudalen nesaf.

# Diweddariad gweithgaredd hanner blwyddyn H2 2023/24
## Astudiaethau achos

Banc




**Angladdau Enfys Funerals**
**Bangor, Gogledd Cymru**
**Micro fenthyciad**

Trefnwyr angladdau

Galluogodd cyllid y cwmni hwn i sefydlu gwasanaeth newydd ar gyfer tacluso beddau, gyda'r nod o ddarparu datrysiad cynhwysfawr i deuluoedd ar gyfer cynnal a harddu lleiniau claddu.




**Gwenyn Gruffydd**
**Dryslwyn, Gorllewin Cymru**
**Micro fenthyciad**

Fferm fêl

Fe wnaethom helpu Gwenyn Gruffydd i ehangu cynhyrchiant gyda chyfleuster gweithrediadau pwrpasol newydd sy’n darparu lle storio a gweithio ychwanegol.

# Diweddariad gweithgaredd hanner blwyddyn H2 2023/24
## Astudiaethau achos



**Blodau John Henry Flowers**
**Caerdydd, De Cymru**
**Micro fenthyciad**

Gwerthwr blodau

Helpodd y benthyciad y gwerthwr blodau i adleoli i eiddo mwy gan fod cynnydd yn y galw yn golygu bod angen lle ychwanegol.




**SecuraKi**
**Caerdydd, De Cymru**
**Micro fenthyciad**

Gwneuthurwr cloeau clyfar

Cefnogodd ein buddsoddiad eu lansiad, gan ganiatáu i SecuraKi gyflwyno ei gloeon clyfar allan i gwsmeriaid.

Banc

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**

In Partnership with **Welsh Government**

**@bancdatcymru** **bancdatblygu.cymru**

Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy’n masnachu fel Datblygu Banc Cymru. Mae’r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi’u cofrestru gydag enwau gan gynnwys y llythrennau cyntaf BDC. Cwmni datblygu yw Banc Datblygu Cymru ccc sy’n eiddo i Weinidogion Cymru yn gyfan gwbl ac nid yw wedi’i awdurdodi na’i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (ARhD) na’r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Banc Datblygu Cymru dri is-gwmni sydd wedi’u hawdurdodi a’u rheoleiddio gan yr ARhD. Sylwer nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o’i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu fel y cyfryw. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o’r endidau grŵp dderbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar gael yn Bancdatblygu.cymru.